Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Llys Marchan**

**Stryd Mwrog**
**Rhuthun**
**LL15 1LE**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

20 Hydref 2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Llys Marchan

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | ClwydAlyn Housing Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 10 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 7 Gorffennaf 2021 |
| A yw’r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu ‘Cynnig Rhagweithiol’ ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae'r bobl sy'n byw yn Llys Marchan yn cael gofal a chymorth o ansawdd da, gan dîm o staff sy'n deall eu hanghenion. Anogir y bobl i gymryd rhan yn y broses barhaus o ddatblygu'r gofal a'r cymorth y maent yn eu cael. Cânt eu hannog i fod yn annibynnol ac i gymryd risgiau cadarnhaol, a'u cefnogi i gyflawni eu nodau personol. Mae trefniadau ar waith i amddiffyn y bobl rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso.

Mae system cynnal a chadw effeithiol ar waith yn y gwasanaeth, er mwyn sicrhau bod y cartref yn ddiogel ac yn addas i'r bobl sy'n byw yno.

Mae'r staff gofal yn teimlo'n gadarnhaol am weithio yn y gwasanaeth ac yn awyddus i gefnogi'r bobl i gyflawni eu nodau personol. Mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y darparwr ac yn cael yr hyfforddiant perthnasol i gyflawni eu rôl.

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth yn dda ac yn ymrwymedig i ddatblygu a gwella canlyniadau i'r bobl sy'n byw yno.

## Llesiant

Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd, a gallant fynd a dod fel y mynnant. Dywedodd y bobl wrthym mai nhw sy'n penderfynu sut y byddant yn treulio eu hamser bob dydd, gan gynnwys pryd y byddant yn codi ac yn mynd i'r gwely.

Mae'r staff gofal yn helpu'r bobl i gynnal eu hiechyd corfforol, eu hiechyd meddwl a'u llesiant emosiynol. Gwelsom fod y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth yn cael cymorth i gael gafael ar wasanaethau gofal iechyd. Gall y bobl ymarfer eu credoau crefyddol eu hunain; dywedodd y bobl wrthym eu bod yn mynychu'r Eglwys. Mae'r gwasanaeth yn darparu gweithgareddau rheolaidd a theithiau dydd. Anogir y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth i gymryd rhan mewn gweithgareddau garddio.

Cynorthwyir y bobl i gynnal cydberthnasau a dywedodd y bobl wrthym fod darparwr y gwasanaeth yn croesawu ymwelwyr a bod y staff yn eu helpu i ymweld â theulu ar achlysuron arbennig.

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso, ac mae systemau effeithiol ar waith i ddiogelu'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Mae gan y darparwr bolisïau a gweithdrefnau ar waith sy'n unol â deddfwriaeth a chanllawiau cenedlaethol cyfredol. Mae'r staff yn gyfarwydd â'r polisïau a'r gweithdrefnau ac yn gwybod sut i gael gafael ar y wybodaeth berthnasol.

Caiff y bobl eu galluogi i fanteisio ar addysg. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn gallu mynychu'r coleg, grwpiau a gweithgareddau lleol, cyflogaeth a chyfleoedd gwirfoddoli.

Mae'r Datganiad o Ddiben yn disgrifio'r llety a ddarperir yn gywir. Gall y bobl ddewis ble y byddant yn treulio eu hamser. Mae'r ardaloedd cymunedol ar gael iddynt drwy gydol y dydd a gall y bobl ddewis treulio amser ym mhreifatrwydd eu hystafelloedd, os byddant am wneud hynny. Anogir y bobl i arddangos eu heitemau personol eu hunain yn eu hystafelloedd er mwyn creu amgylchedd cartrefol.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt drwy wasanaeth sy'n gweithio gan ymgynghori ag unigolion. Mae darparwr y gwasanaeth yn sicrhau y caiff dymuniadau a dyheadau'r person eu hystyried wrth ddatblygu ei ofal a'i gymorth. Caiff asesiadau cyn derbyn eu cwblhau cyn i'r gwasanaeth ddechrau a thrwy ymgynghori â'r bobl. Gwelsom fod y cynlluniau personol yn canolbwyntio ar yr unigolyn a bod ffocws ar safbwyntiau a dymuniadau'r person.

Mae'r staff yn dilyn y cynlluniau personol, sy'n nodi'n glir y cymorth sydd ei angen ar y person. Caiff risgiau eu nodi ac mae asesiadau risg priodol ar waith, sy'n galluogi'r staff i liniaru risgiau. Anogir y bobl i gymryd risgiau cadarnhaol a chânt eu cefnogi i fyw mor annibynnol â phosibl. Gwelsom fod cyfleusterau ar gael i'r bobl goginio eu prydau eu hunain. Gall y bobl sy'n byw yn y cartref fynd a dod fel y mynnant yn ystod y dydd, ac mae gan bob person sy'n byw yn y gwasanaeth ei ddyfais ei hun er mwyn cael mynediad i'r adeilad. Gwelsom fod y bobl yn cael eu cefnogi i gyflawni eu canlyniadau personol; cânt eu cefnogi i fanteisio ar addysg a chyfleoedd gwirfoddoli.

Mae'r nodiadau dyddiol yn adlewyrchu'r gofal a'r cymorth a ddisgrifir yn y cynlluniau personol, sydd wedi'u llunio mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Gwnaethom siarad â'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth ac roedd y wybodaeth a roesant yn adlewyrchu'r gofal a'r cymorth a nodir yn y cynlluniau personol. Caiff y mwyafrif o'r cynlluniau gofal eu hadolygu'n rheolaidd, ond ni chaiff lleiafrif ohonynt eu hadolygu bob tri mis o leiaf. Nid yw hyn yn cael effaith negyddol ar y bobl ar hyn o bryd ac mae'r darparwr wedi rhoi sicrwydd i ni y caiff y cynlluniau personol eu hadolygu'n fwy rheolaidd. Ni lwyddom i weld pob un o'r adolygiadau blaenorol, gan fod y gwasanaeth wedi wynebu anhawster gyda'i system cynllunio gofal, a oedd yn broblem genedlaethol.

Dywedodd y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth wrthym eu bod yn fodlon ar y cymorth a roddir, ac roedd yr adborth yn cynnwys "*it's a good home and I don't want to leave*". Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn y broses o ddatblygu ac adolygu eu gofal a'u cymorth. Dywedodd y bobl eu bod yn cael cyfleoedd rheolaidd i roi adborth ar y gwasanaeth y maent yn ei gael. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd â'r preswylwyr, sy'n rhoi cyfle i'r bobl awgrymu gweithgareddau, teithiau dydd a syniadau ar gyfer bwydlenni newydd. Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn teimlo bod y tîm rheoli yn gwrando arnynt.

Caiff y bobl eu cefnogi i gael gafael ar wasanaethau gofal iechyd, a gwelsom fod gohebiaeth feddygol yn cael ei chofnodi yn y cynlluniau personol. Mae'r staff yn cefnogi'r bobl i fynychu apwyntiadau meddygol pan fo angen.

Mae'r gwasanaeth yn cefnogi'r bobl i reoli eu harian eu hunain. Mae polisi ar waith sy'n nodi'n glir sut y caiff y bobl eu cefnogi i reoli eu sefyllfa ariannol eu hunain, gan geisio sicrhau bod gan y person gymaint o reolaeth â phosibl.

Mae gan ddarparwr y gwasanaeth systemau effeithiol ar waith i ddiogelu'r bobl y darperir gofal a chymorth iddynt. Mae gan y darparwr fesurau ar waith i nodi digwyddiadau, rhoi gwybod amdanynt a'u cofnodi. Atgyfeirir unigolion at yr asiantaethau allanol priodol pan fo angen, ac mae'r wybodaeth a gofnodir yn cynnwys canlyniadau'r atgyfeiriadau a wnaed a'r camau a gymerwyd.

## Yr Amgylchedd

Mae darparwr y gwasanaeth yn sicrhau bod y bobl yn cael gofal a chymorth mewn amgylchedd sydd â chyfleusterau sy'n eu cefnogi i gyflawni eu canlyniadau personol. Ceir nifer o ardaloedd cymunedol, y mae gan bob un ohonynt ei hardal cegin gysylltiedig lle y gall y bobl wneud eu diodydd eu hunain. Mae'r staff yn cefnogi'r bobl i goginio drostynt eu hunain, ac mae cyfleusterau ar gael i hyrwyddo hyn. Mae'r ardaloedd cymunedol wedi'u haddurno mewn ffordd gartrefol ac maent yn rhoi cyfle i'r bobl gymdeithasu ag eraill, os byddant yn dymuno gwneud hynny. Mae cyfrifiadur cymunedol ar gael i'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth ei ddefnyddio, sy'n eu galluogi i gael mynediad i'r rhyngrwyd os nad oes ganddynt eu dyfais eu hunain. Gall y bobl ddefnyddio'r cyfleusterau golchi dillad pan fo angen. Mae'r rhain yn lân, yn ddiogel ac yn cynnwys sinc dynodedig i olchi eitemau â llaw.

Mae tir y gwasanaeth wedi'i gynnal a'i gadw'n dda, a cheir seddi priodol i'r bobl eu defnyddio pan fydd y tywydd yn caniatáu. Anogir y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth i gymryd rhan mewn gweithgareddau garddio.

Mae gan y darparwr systemau ar waith i nodi a lliniaru risgiau i iechyd a diogelwch. Mae'r darparwr yn cynnal y gwiriadau iechyd a diogelwch perthnasol, gan gynnwys gwiriadau diogelwch tân. Roedd yr asesiad risg tân diweddaraf yn nodi'r camau yr oedd angen eu cymryd, ac mae'r rhan fwyaf o'r rhain wedi'u cwblhau. Mae'r darparwr wedi rhoi sicrwydd i ni fod y camau gweithredu sy'n weddill yn yr arfaeth. Byddwn yn ystyried hyn yn yr arolygiad nesaf. Mae Cynlluniau Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad mewn Argyfwng ar waith, ond mae angen adolygu lleiafrif ohonynt yn amlach. Mae'r darparwr yn sicrhau y caiff y gwiriadau diogelwch perthnasol eu cynnal, gan gynnwys gwiriadau trydan, diogelwch nwy, system ddŵr ac unrhyw gyfarpar yn y cartref. Mae cyfyngwyr wedi'u gosod ar y ffenestri er mwyn sicrhau diogelwch y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth.

Mae gan ddarparwr y gwasanaeth system cynnal a chadw ar waith i nodi unrhyw waith neu atgyweiriadau sydd eu hangen yn yr adeilad ac o'i amgylch, gan gynnwys tir y gwasanaeth. Gwelsom dystiolaeth bod y staff yn cwblhau'r ffurflenni perthnasol i nodi unrhyw waith sydd ei angen, a'u bod yn cofnodi pan fydd y tasgau wedi'u cwblhau.

Mae mesurau digonol ar waith i hyrwyddo arferion hylendid da ac i reoli'r risg o heintiau. Mae'r gwasanaeth yn cadw at ei bolisi a'i weithdrefnau rheoli heintiau ei hun; gwelsom fod pob ardal o'r adeilad yn lân ac yn daclus.

Mae Dyfais Teledu Cylch Cyfyng ar waith, wedi'i lleoli y tu allan i fynedfa'r adeilad at ddibenion diogelwch; mae gan ddarparwr y gwasanaeth bolisi priodol ar waith mewn perthynas â CCTV. Nid yw hyn wedi'i gofnodi yn y Datganiad o Ddiben ar hyn o bryd; mae'r Unigolyn Cyfrifol wedi rhoi sicrwydd i ni y caiff y datganiad hwn ei ddiwygio i adlewyrchu'r ffaith bod system CCTV wedi'i gosod.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan y darparwr drefniadau ar waith i helpu i redeg y gwasanaeth yn ddidrafferth, er mwyn sicrhau bod sylfaen gadarn i ddarparu gofal a chymorth da. Mae'r prosesau sydd ar waith yn cefnogi'r bobl i gyflawni eu canlyniadau personol. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cynnal ei ymweliadau rheoleiddio; gwelsom dystiolaeth bod y ddogfennaeth berthnasol yn cael ei hadolygu yn ystod yr ymweliadau rheoleiddio. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ceisio adborth gan y staff a'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw wrthym fod yr Unigolyn Cyfrifol yn hawdd iawn mynd ato ac yn ceisio eu barn am y gwasanaeth yn rheolaidd.

Mae darparwr y gwasanaeth yn goruchwylio'r trefniadau ariannol er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn gynaliadwy yn ariannol ac y gall gefnogi'r bobl i fod yn ddiogel ac i gyflawni eu canlyniadau personol. Mae mesurau ar waith i sicrhau y caiff yr adeilad ei gynnal a'i gadw. Mae gan ddarparwr y gwasanaeth gynlluniau wrth gefn os bydd argyfwng. Mae'r darparwr wedi trefnu yswiriant priodol ar gyfer y gwasanaeth.

Caiff y bobl eu cefnogi gan wasanaeth sy'n darparu nifer priodol o staff addas, sy'n meddu ar y wybodaeth, y cymhwysedd, y sgiliau a'r cymwysterau i gefnogi'r bobl i gyflawni eu canlyniadau personol. Gwelsom fod y lefelau staffio a ddarperir yn unol â'r Datganiad o Ddiben. Mae'r gwasanaeth yn defnyddio staff asiantaeth pan fo angen, ond gwelsom nad yw hyn yn digwydd yn rheolaidd. Gall y bobl fod yn hyderus bod darparwr y gwasanaeth yn cynnal y gwiriadau priodol cyn cyflogi aelod newydd o staff. Mae'r rhan fwyaf o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf ac mae cynlluniau ar waith i bob aelod o'r staff fod wedi cwblhau hyfforddiant arbenigol ar gyflwr iechyd penodol.

Mae'r staff yn cael sesiynau goruchwylio ffurfiol un i un bob tri mis o leiaf. Mae hyn yn galluogi'r tîm rheoli i sicrhau bod yr aelod o staff yn gymwys yn ei rôl ac yn cael ei hyfforddi a'i gefnogi'n ddigonol. Dywedodd yr aelodau o staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu rôl, gan y rheolwyr a'r Unigolyn Cyfrifol. Roedd yr adborth gan y staff yn cynnwys "*I love it, it's very homely*" ac *"we help to meet people's needs and to help do what they want and encouraging independence".* Mae'r rheolwyr yn cynnal cyfarfodydd staff yn rheolaidd, a dywedodd y staff wrthym eu bod yn ddefnyddiol iddynt.

Roedd yr adborth a gafwyd gan weithwyr proffesiynol sy'n ymweld â'r gwasanaeth yn gadarnhaol, ac yn nodi bod y gwasanaeth yn darparu amgylchedd dymunol i'r bobl sy'n byw yno.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn ystod yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 21 | Nid yw'r person cofrestredig yn cydymffurfio â Rheoliad 21 - Safonau Gofal a Chymorth | Cyflawnwyd |

**Dyddiad Cyhoeddi** 22/12/2022